DAN DO MÔN

Cylchlythyr i fudiadau gwirfoddol Ynys Môn
Rhif Elusen 1088828 Rhif Cwmni 4197934 Rhifyn 87 Mai 2011

Cronfa Gymunedol MônMedrwn 2011 - 2012

Mae rownd gyntaf Cronfa Gymunedol Medrwn Môn 2011 - 2012 ar agor ar gyfer ceisiadau i helpu grwpiau a mudiadau gwirfoddol / cymunedol i ddarparu neu uwchraddio cyfleusterau neu gynnal gweithgaredd i hybu adfywiad cymunedau.

Prif bwrpas fydd creu neu uwchraddio cyfleusterau cymunedol e.e. neuaddau pentref, canolfannau cymunedol ayb ar gael i'r gymuned gyfan, neu eu haddasu i sicrhau mynediad cyfartal ar gyfer pobl anabl fel sy'n ofynnol o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995.

Bydd hefyd yn annog gweithgareddau sy'n gwella'r amgylchedd naturiol i bobl leol e.e. alotments, gerddi cymunedol, gwelliannau amgylcheddol i leoliadau strategol mewn trefi a phentrefi ayb.

Caniateir ceisiadau hyd at £2000 i bob mudiad, un cais y flwyddyn. Ffurflen gais a chanllawiau llawn ar gael gan Medrwn Môn ar 01248 724944 gyda dyddiad cau o ddydd Gwener, 1 Gorffennaf 2011.

Rhaglen Lleisiau Lleol gwerth £12 milwin Cronfa Loteri Fawr

- Arian Loteri yn helpu i roi llais cryfach i gymunedau Cymru

Gall y Rhaglen Lleisiau Lleol gwerth £12 miliwn Cronfa Loteri Fawr rhoi'r pwer i'ch grwp ddylanwadu ar benderfyniadau yn eich cymuned.

- Bydd Lleisiau Lleol yn helpu cymunedau i ddylanwadu ar wasanaethau a ddarperir iddynt er mwyn cwrdd ag anghenion yn well
- Bydd Arian Loteri yn helpu i ddatblygu prosiectau sy'n cyflawni blaenoriaethau ac anghenion lleol a adnabuwyd
- Dim ond Cynghorau Gwirfoddol Sirol (CGSau) yng Nghymru all ymgesio am arian ar ran grwpiau cymunedol lleol

Os oes gennych unrhyw syniad neu'n dymuno bod ynghlwm cysylltwch â Medrwn Môn ar 01248 724944.

LOTTERY FUNDED

Nid yw'n anorfod mai barn Medrwn Môn a fynegir yn y cyhoeddiad hwn. Cedwir yr hawl i olygu cyn cyhoeddi. Dyluniwyd a dosbarthwyd y cylchlythyr hwn gan Medrwn Môn.

NEWYDDION CYLLIDO

Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n Gyntaf 2011/2012

Mae cymunedau yn ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru wedi cael hwb wrth glywed y newyddion da y bydd cyllid ar gyfer Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau yn Gyntaf yn parhau am flwyddyn arall.

Mae Cronfa Ymddiriedolaeth Cymunedau'n 1af ar agor nawr i geisiadau efo Canllawiau a Ffurflenni Cais i grwpiau sy'n dymuno ymgeisio.

Mae nifer o newidiadau wedi'u cyflwyno i'r meini prawf eleni – felly mae'n bwysig iawn bod grwpiau'n darllen ac yn deall y meini prawf cyn mynd ati i lenwi ffurflen gais. Os ydych yn ansicr neu os hoffech gael eglurhad ar gymhwysedd ayb, cysylltwch ag aelod o dîm y Gronfa ar 0800 587 8898 cyn cyflwyno'r cais.

Mae rhai o'r newidiadau'n cynnwys:

- Y dyddiad cau olaf ar gyfer ceisiadau yw 30 Tachwedd 2011 – Mae ceisiadau'n dal i gael eu prosesu yn y drefn maent yn ein cyrraedd.
- Dim ond 6 mis fydd gan grwpiau i wario ac i roi cyfrif am y grant os byddant yn llwyddiannus
- Yn achos rownd gyllido 2011-2012, gall grwpiau wneud cais eto i'r Gronfa am yr un costau neu gostau tebyg; fodd bynnag, rhoddir ffafriaeth i weithgareddau newydd.
- NID yw grwpiau'n gymwys i wneud cais i'r Gronfa os oes ganddynt adroddiad Diwedd Prosiect heb ei gyflwyno o grant blaenorol gan y Gronfa neu'r Ymddiriedolaeth Cerdd. Rhaid cwblhau'r grant blaenorol a rhoi cyfrif amdano cyn cyflwyno cais newydd
- Mae nifer o newidiadau wedi'u cyflwyno i'r trefniadau ar gyfer defnydd grwpiau o 'fudiadau ymbarél' – gweler y canllawiau am restr gyflawn o'r gofynion cyn cynghori grŵp sy'n gwneud cais.

Os hoffech i aelod o dîm y Gronfa ymweld â'ch ardal i helpu grwpiau i gwblhau eu ceisiadau / egluro'r meini prawf yn fwy manwl / neu os oes gennych unrhyw ymholiadau, yna cofiwch gysylltu â nhw ar 0800 5878898.

Helen Wilson Rheolwr Prosiect Grantiau, Cronfa Cymunedau yn Gyntaf

Ffôn: 0800 587 8898 Ffacs: 029 2043 1706 Minicom: 029 2043 1702

E-bost hwilson@wcva.org.uk Gwefan :www.wcva.org.uk

NEWYDDION CYLLIDO

Ymddiriedolaeth Tudor

Cyhoeddodd Ymddiriedolaeth Tudor ganllawiau newydd ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2011 a Mawrth 2012. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cefnogi gwaith sy'n rhoi sylw i amrywiaeth eang o anghenion, gan ganolbwyntio ar helpu pobl ar gyrion cymdeithas a mynd at wraidd eu problemau. Mae'n well ganddi gefnogi mudiadau gyda throsiant sy'n is nag £1 miliwn.

Gall y grantiau dalu costau craidd, costau prosiectau neu anghenion datblygu cyfalaf. Hefyd, gellir gwario'r arian ar feithrin gallu eich mudiad. Gellir rhoi benthyciadau, os ydynt yn gweddu'n well i'ch anghenion chi.

Gellir llwytho canllawiau diweddaraf yr Ymddiriedolaeth i lawr yn www.tudortrust.org.uk/downloads/funding_guidelines_2011_12.pdf.

Sefydliad Foyle – Grantiau Bach

Mae cynllun grantiau bach Sefydliad Foyle wedi ei ddylunio i gefnogi elusennau bychain yn y DU, yn arbennig y rhai hynny sy'n gweithio ar lefel sylfaenol a lefel gymunedol leol, mewn unrhyw faes ar draws amrediad eang o weithgareddau.

Croesawir ceisiadau gan elusennau sydd â throsiant blynyddol o lai na £100,000 y flwyddyn. Fe arfer ni ystyrir elusennau mawr neu genedlaethol o dan y cynllun yma. Maent yn bwriadu dosbarthu grantiau blynyddol o rhwng £1,000 a £10,000 i elusennau sy'n gallu dangos y gwahaniaeth a wneir trwy dderbyn grant o'r fath. Os na ellir dangos hyn, gwrthodir y cais.

Dim dyddiad cau i dderbyn ceisiadau. Derbynnir ceisiadau drwy'r amser ond fe all gymryd hyd at bedwar mis i gael penderfyniad gan yr Ymddiriedolwyr. Gwnewch gais mewn digon o amser ymlaen llaw cydnabyddir pob cais

Cydnabyddir pob cais, ond er mwyn arbed costau gweinyddol, fel arfer ni anfonir llythyr os gwrthodir eich cais. Os na fyddwch wedi clywed oddi fewn i bedwar mis o dderbyn eich cais, fe ddylech dybio fod eich cais yn aflwyddiannus.

Sefydliad Foyle Rugby Chambers,
2 Rugby Street, Llundain WC1N 3QU
Gwybodaeth lawn a'r drefn ymgeisio ar: www.foylefoundation.org.uk

NEWYDDION IECHYD

Cyfarfod Grŵp Cyfeiriol Rhanddeiliaid-
16 Mai 2011

1. Trafodaeth bellach ar sefyllfa cleifion gyda EMI o Arfon / Dwyfor yn gorfod teithio i Ysbyty Cefni. Mynegwyd pryder ar ddiffyg cynnydd. Adroddwyd fod 3 nyrs EMI arbenigol wedi'u hapwyntio.
2. Pwysau Gaeaf a Phasg- cynhaliwyd sesiynau adrodd yn ôl i ganfod pa mor dda oedd y gwasanaethau. Adroddiad i ddilyn. Pryder cyhoeddus o hyd ynglŷn â chau ward Alaw. Cynlluniau i wneud hyn eto wedi'u gwadu.
3. PBC wedi apwyntio Parch Hywel Meredydd fel 'Pencampwr i Hynafwyr'
4. Trafodaeth ynglŷn â sefyllfa ariannol. Cyfarfodydd blaenorol wedi dangos diffyg sylweddol ond disgwylir i'r Bwrdd adennill costau yn y flwyddyn ariannol yma ar ôl arian gan LICC. Fodd bynnag, roedd y diffyg gwaelodol yn bodoli ond wedi lleihau o £36m i £21m.
5. Llawer o'r cyfarfod wedi'i gymryd i fyny gan y testun pwysig o Urddas mewn Gofal - siaradodd Jill Galvani, Cyfarwyddwr Nyrsio, ar adroddiadau a gynhyrchwyd yn ddiweddar a gomisiynwyd gan Gomisiynydd Pobl Hŷn Cymru ' Gofal Urddasol' ac Adroddiad yr Ombwdsman Cymreig, yr olaf yn nodi digwyddiad pryderus yn Ysbyty Glan Clwyd. Cyflwynwyd adroddiadau eraill gan gynnwys un o Loegr. Daethpwyd i'r casgliad bod mwy o waith dal i'w wneud ac un o'r ffyrdd ymlaen oedd cyflwyno Metronau i oruchwylio 2/3 wardiau a rhoi mwy o bŵer iddynt. Angen i holl Brif Weinyddesau Nyrsio gael grym i wneud mwy o benderfyniadau eu hunain. Lansir prosiect 'O dan y dillad gwely' er mwyn rhoi mwy o sylw at reolaeth o ymataliad ayb. Y sgiliau o gymysgedd staff nyrsio i'w adolygu. Roedd maeth hefyd yn uchel ar y rhaglen. Cynllun i gyflwyno Gwirfoddolwyr a Gofalwyr i helpu gyda bwydo cleifion i'w gyflwyno o fis Gorffennaf ymlaen. Rhoddir hyfforddiant. Hefyd, cynigwyd i gyflwyno gwirfoddolwyr hyfforddedig i ymwneud ag ymholiadau mewn derbynfeydd (tebyg i gynllun PALS yn Lloegr). Mynegwyd amheuaeth gan Aelodau ynglŷn â hyn a'r gwrthdaro gyda CICau. Pwysleisiwyd y byddai polisi goddef dim at agweddau gwael a diswyddir staff fydd yn arddangos hyn. Ymgymerir ag arolwg bodlondeb cleifion trwy Ogledd Cymru. Mewn ymateb i gwestiwn, adroddwyd nad oedd Gweithwyr Cefnogol Gofal Iechyd yn cael eu rheoli gan unrhyw safonau (fel y mae'r nyrsys). PBC i ddod â phwysau ar LICC i newid y sefyllfa.

6. Rhyddhau Cleifion dal yn broblem mewn rhai ardaloedd. Popeth o dan adolygiad, gan gynnwys dogfennaeth. Mwy o ymglymiad yr Awdurdod Lleol i ddigwydd a phwysleisiwyd y pwysigrwydd o ryddhau staff i ymgymryd â hyfforddiant
7. Gwaith ychwanegol timau Nyrsio Cymunedol yn cymryd lle i sicrhau lefelau staffio digonol – addasir yn unol â'r anghenion ardal.
8. Disgrifiwyd Prosiect Ysbyty Glan Clwyd gan y Prif, Dr Eileen Williams. Mae'r cynllun yma'n cwmpasu tynnu asbestos ac ail-ddylunio llawer o'r llawr gwaelod gan gynnwys y Theatrau Llawdriniaeth. Yr ardaloedd triniaeth i'w symud yn ôl i gefn yr ysbyty gyda chleifion allanol i'r ochr flaen. Bydd 24 o welyau yn y wardiau gyda 4 gwely gyda'u hystafell ymolchi eu hunain ac 8 ystafell sengl. Bydd y cynllun yn costio £105m ac wedi cyflawni cam cyntaf o'r cymeradwyaeth strategol. Rhoddir strategaeth ymgynghorol mewn lle er mwyn hysbysu pawb.
9. Cydraddoldeb a Hawliau Dynol– cyflwynwyd dogfennau ar hyn. Roedd y Ddeddf Cydraddoldeb i'r sector cyhoeddus yn fwy cadarn na'r fersiwn Saesneg. Dosberthir pecynnau hyfforddiant
10. Trafodwyd Cylch Gorchwyl o'r 'SRG'. Awgrymwyd y gallai Aelodau ddod yn Bencampwyr ar wahanol bynciau.

Cadeirydd Newydd y Bwrdd Iechyd

Apwyntiwyd yr Athro Merfyn Jones, cyn Is-ganghellor Prifysgol Bangor, fel Cadeirydd newydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Symudodd i Brifysgol Bangor ym 1990 a daeth yn Bennaeth Ysgol Hanes a Hanes Cymru, Athro Hanes Cymru, Deon Cyfadran y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol a Dirprwy Is-ganghellor. Treuliodd ran o 2003 fel Is-ganghellor Dros Dro cyn dod yn chweched Is-ganghellor y Brifysgol ym mis Awst 2004.

Dywedodd yr Athro Jones "Nid oes amheuaeth ein bod yn wynebu cyfnodau heriol yn y dyfodol, yn enwedig yn ystod y cyfnod hwn o wariant cyhoeddus cyfyngedig, rwy'n gobeithio y byddwn yn cael ein hysgogi i gydweithredu a gweithio ar y cyd â'n partneriaid mewn awdurdodau lleol, addysg uwch ac yn y sector gwirfoddol, gan rannu ein sgiliau, adnoddau a gwybodaeth i wella gwasanaethau.

Am fanylion pellach, cysylltwch â:
bcuhbpressdesk@wales.nhs.uk / 01248 384776
Gwefan: www.pbc.cymru.nhs.uk

(Diolchwn i Dilys Shaw, Ymddiriedolwr Medrwn Môn am yr erthygl yma)

NEWYDDION

SIOE MÔN

Eleni eto bydd gan Medrwn Môn babell yn Sioe Môn ar 9fed a 10fed o Awst. Byddwn yn cynnig gofod i 8 o fudiadau gwirfoddol sy'n aelodau o Medrwn Môn i rannu'r babell gyda ni am gost resymol. Cwblhewch y slip amgaeedig yn Dan Do Môn os hoffech archebu lle yn y babell.

Ymddiriedolaeth Treftadaeth Gymunedol Porthaethwy



Bydd Arddangosfa Ymddiriedolaeth Gymunedol Porthaethwy a'r Pontydd ar agor yng Nghanolfan Thomas Telford, Porthaethwy, LL59 5EA (gyferbyn â Waitrose) ar y dyddiadau canlynol rhwng 10am a 4pm:

Gwyliau Sulgwyn: Dydd Sul 29 Mai – Dydd Sul 5 Mehefin
Haf: Dydd Sul 3 Gorffennaf – Dydd Iau 29 Medi
Dydd Sul – Dydd Iau - Ar gau Dydd Gwener a Dydd Sadwrn
Hanner Tymor Hydref - Dydd Sul 23 Hydref – Dydd Iau 29 Hydref

Am fwy o fanylion cysylltwch ar 01248 715046
E-bost: mbcht@btconnect.com Gwefan: www.menaibridges.co.uk

Cynhelir cyfarfod nesaf o'r **Cydbwyllgor Ymgynghorol gyda'r Cyngor Sir a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr** ar 30 Mehefin 2011 yn Neuadd Pritchard Jones, Niwbwrch. Bydd yr agenda yn cynnwys comisiynu, gwirfoddoli, cydraddoldeb, adolygu'r Compact a'r Cod Ymarfer Cyllido.

Llongyfarchiadau i Siân a Jimmy Purcell ar enedigaeth eu mab, Daniel James Purcell, oedd yn pwyso 8 bwys 6 owns ar 12 Ebrill 2011.

Ar ran ymddiriedolwyr Medrwn Môn, staff a gwirfoddolwyr, dymunwn y gorau iddynt oll ac edrychwn ymlaen i wirfoddolwr newydd i'r dyfodol yn ardal Cemaes!

GWYBODAETH

Rhaglen Braenaru
Gweithredu Cymunedol ar Newid Hinsawdd

Mae'r rhaglen Braenaru yn gynllun newydd dwy flynedd wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn cael ei reoli gan yr elusen amgylcheddol Asiantaeth Ynni Hafren Gwy (SWEA - Severn Wye Energy Agency) i gefnogi gweithredu cymunedol ar newid hinsawdd. Mae yn rhaglen dwy flynedd, Mae'r Swyddogion Braenaru bellach yn gweithio trwy chwech Rhanbarth gwahannol yng Nghymru. Bydd y swyddogion braenaru yn:

- Annog a chefnogi grwpiau / sefydliadau cymunedol i weithredu ar newid hinsawdd. Bydd hyn yn digwydd trwy gynghori, cyfeirio, a chynorthwyo cymunedau i rannu syniadau ac arferion da.

- Adnabod gweithredu ar newid hinsawdd a datblygu cynaladwy mewn cymunedau sydd yn digwydd ar hyn o bryd yn ogystal a'r potensial ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, fel y gall eu gwaith gael ei rannu gyda eraill trwy Gymru.

- Casglu tystiolaeth o beth sy'n gweithio pan mae cymunedau yn arwain ar weithredu newid hinsawdd. Bydd hyn yn canolbwyntio'n arbennig ar leihau ol troed carbon trwy newid ymddygiad yn y meysydd teithio, ynni, bwyd ac arbed dwr.

Yn ogystal â chefnogi grwpiau trwy Gymru, maent yn anelu i adnabod 18 cymuned sy'n awyddus i gymeryd rhan mewn prosiect ymchwil trwyr Rhaglen Braenaru. Bydd rhain yn cydweithio gyda'r Swyddogion er mwyn datblygu mentrau newid hinsawdd presennol neu greu rhai newydd sbon.

Cysylltu a Swyddog Braenaru

Os â diddordeb mewn datblygu prosiectau cymunedol yn eich ardal mae eich Swyddog angen clywed gennych.

Eich Swyddog Braenaru yw Dafydd Jones ar gyfer
Gwynedd, **Ynys Môn** a Chonwy
Ffôn: 07875 965531 E-bost: dafyddjones@swea.co.uk

Mae mwy o wybodaeth ar y rhaglen ar www.swea.co.uk/proj_pathfinder.shtml.

Ariennir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Funded by Welsh Assembly Government

GWYBODAETH

Diogelwch Tân a'r Gymuned…rhoi gwybodaeth ar waith

Dydd Mawrth 28ain o Fehefin, Prifysgol Glyndwr – Wrecsam

Yn ffodus, dros y degawd diwethaf, mae nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi wedi gostwng yn gyson. Fodd bynnag, mae rhai carfannau o bobl yn dal i gael eu gorgynrychioli yn yr ystadegau anafiadau a marwolaethau oherwydd tân. Mae ymchwil hefyd wedi dangos: "ochr yn ochr ag achosion uniongyrchol tân, alcohol, symudedd ac afiechyd meddwl yw'r dylanwadau unigol mwyaf ar p'un ai y bydd tân yn cychwyn a ph'un ai y bydd iddo ganlyniadau angheuol."

Diben y digwyddiad hwn dros hanner diwrnod yw cynyddu gwybodaeth ac ymwybyddiaeth o berygl tân ymhlith y rhai sydd, mewn sefyllfa iechyd a gofal cymdeithasol, yn gweithio gyda, neu'n cefnogi, unigolion sydd 'mewn perygl'. Byddwn hefyd yn edrych ar sut y gellir rhoi'r wybodaeth hon ar waith yn ymarferol.

Pwy ddylai ddod?

Gwahoddir ymarferwyr ac arweinwyr tîm ym meysydd iechyd, gofal cymdeithasol a meysydd cysylltiedig eraill e.e. y gwasanaethau cymdeithasol, gweithwyr gofal cartref, ymarferwyr iechyd.

Yn dilyn dwy sesiwn lawn, bydd gweithdai ymarferol sef:

- *Diogelwch tân a'ch cleientiaid – creu'r cysylltiadau*
- *Diogelwch tân a'ch cleientiaid – gwybodaeth ar waith*

Deilliannau dysgu

Wedi'r digwyddiad, dylai'r mynychwyr fod wedi:

- Gwella eu gwybodaeth am beryglon tân a diogelwch tân;
- Gwella eu gwybodaeth am grwpiau risg uchel;
- Ystyried sut y mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'u cleientiaid eu hunain;
- Ystyried sut y gellir defnyddio'r wybodaeth hon mewn ffordd ymarferol

Er nad yw'r cwrs yn un sydd wedi ei achredu, rydym yn gobeithio y bydd yn cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol parhaus y rhai sy'n dod, ac yn ychwanegu at ddealltwriaeth Atal Tân o natur grwpiau sydd 'mewn perygl' a sut i'w cyrraedd.

Oherwydd ein dymuniad i'r digwyddiad fod yn un rhyngweithiol, cyfyngir ar y llefydd i 60 ymhob digwyddiad.

Mae'r digwyddiad yn rhad ac am ddim, ond er mwyn sicrhau eich lle, gofynnir am gyfraniad o £10 y byddwn yn ei gadw tuag at ginio a lluniaeth.

Archebwch eich lle neu ffoniwch 01633 654000

Mae modd osgoi llawer o danau a'r rhan fwyaf o anafiadau oherwydd tân. Mae tân yn gorfod cael tanwydd, ocsigen a rhywbeth a allai ei gynnau, ac mae'r cyfuniad hwn o elfennau yn aml yn digwydd oherwydd ymddygiad dynol.

GWYBODAETH

UN PWYNT MYNEDIAD

Lansiwyd Gwasanaethau Cymdeithasol Ynys Môn a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr gwasanaeth peilot oedolion integredig 'Un Pwynt Mynediad' ar 9fed o Fai 2011; gwasanaeth oedolion integredig, ar gyfer achosion Iechyd a Gofal Cymdeithasol a gyfeirir gan y gwasanaethau gofal cymuned a gofal cychwynnol, ysbytai, asiantaethau gwirfoddol a gwasanaethau statudol eraill. Mae hyn ar gyfer oedolion sy'n byw yn ardal Ynys Môn. Cynhelir y cynllun peilot 3 mis gan y Gwasanaethau Cymdeithasol o Swyddfa Dyletswydd y Gwasanaethau Cymdeithasol yn Swyddfeydd y Cyngor yn Llangefni.

Beth ydy'r Amcanion? Sicrhau ymateb prydlon ac effeithiol i achosion a gyfeirir yn y maes iechyd a gofal cymdeithasol; Cryfhau'r broses sgrinio a dangos y ffordd briodol ymlaen at wasanaethau perthnasol; Symleiddio llwybr cyfeirio ar gyfer cyfeiriadau ysbyty a chymuned sy'n gofyn am gyfraniad amlddisgyblaethol (MDT) gan gynnwys Gofal Canolradd; Hybu a hwyluso rhyddhau achosion o ysbyty; Lleihau dyblygu o fewn y system; Cryfhau trefniadau gweithio MDT ar sail dalgylch a gwella cysondeb efo'r broses Asesiad Unedig

Sut i Gyfeirio: Ffôn: Swyddog Dyletswydd – 01248 752054, 752734, 752087, 752092; Derbynnydd – 01248 752752, 752736 Ffacs: 01248 752798 e-bost: asdss@anglesey.gov.uk

Oriau Agor y Gwasanaeth: Dydd Llun – Dydd Gwener 08.45a.m - 5.05p.m.; Penwythnosau / Gwyliau Banc - fel ar hyn o bryd h.y. - Gwasanaeth Tu Allan i Oriau 01248 355535 neu drwy'r Gwasanaeth Rheoli Ambiwlans 01248 689123 Gwasanaethau Cymdeithasol trwy'r gwasanaeth Tu Allan i Oriau - 01286 675502

Er mwyn sicrhau bod archebion gwasanaethau gofal yn cael eu rhannu rhwng gwasanaethau statudol a gwirfoddol (os yn addas), mae angen edrych ar un pwynt mynediad am wasanaethau gan fudiadau gwirfoddol gan ddechrau dod at ein gilydd i drafod hyn. (Gall hwn, mewn amser, bod yn yr un safle lle cynhelir gwasanaeth o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol rŵan.) Yn y lle cyntaf byddwn yn diweddaru llawlyfr iechyd a gofal cymdeithasol, gydag enwau mudiadau, cyswllt a manylion byr o'i gwasanaeth maent yn cynnig. Os ydych yn cynnig unrhyw wasanaeth yn y rhestr isod, mae'n hanfodol i chi gymryd rhan.

Asesu anghenion cleifion / Adfocataedd / Addasiad i hwyluso rhyddhau o ysbyty a / neu arbed damweiniau yn y cartref. / Cyngor a chyfarwyddyd / ail gyfeirio / Cyfeillgarwch / Budd-daliadau / Cynghori mewn profedigaeth / Cefnogaeth i ofalwyr a defnyddwyr gwasanaeth / Rhyddhau o Ysbytai / Cefnogaeth Ddomestig (glanhau angenrheidiol / coginio / cefnogaeth hefo garddio) / Cefnogaeth Gartref / (help llaw gofal personol) / Cefnogaeth Emosiynol mewn ffisegol, cancer a'r holl gyflyrau cronig / Gwasanaeth galliogi / ail galliogi / Ymweliadau cartref / Gofal Maethol / Gofal Lliniarol / Adferiad / Gofal Cymdeithasol / Hawliau Lles / Trafnidiaeth / Siopa / Presgripsiwn / Ail gyfeirio at fudiadau eraill /

Cysytwch ag Ann Perkins yn Medrwn Môn ar 01248 724944 neu ann@medrwnmon.org i nodi eich diddordeb os gwelwch yn dda.

NEWYDDION

Cyhoeddir **NEWYDDION YMDDIRIEDOLWYR** ar gyfer e-aelodau WCVA sydd wedi cofrestru i dderbyn gwybodaeth ar faterion ymddiriedolwyr a llywodraethu. Mae Newyddion Ymddiriedolwyr yn cael ei ddosbarthu'n fisol. Os hoffech gofrestru i dderbyn Newyddion Ymddiriedolwyr, cwblhewch y ffurflen ar-lein drwy ddilyn y ddolen ganlynol www.wcva.org.uk/membership. Mae WCVA yn cynhyrchu amrywiaeth eang o e-gylchlythyrau i gynorthwyo mudiadau trydydd sector yn eu gwaith, a gallwch danysgrifio i'w derbyn drwy ddilyn yr un ddolen.

Mae rhifyn Mai 2011 nawr ar gael ar-lein ac mae WCVA yn awyddus i ganfod y materion cyfreithiol, o ran llywodraethu a'r materion i ymddiriedolwyr sy'n peri dychryn neu ddryswch. Mae Newyddion Ymddiriedolwyr yn rhoi cyfle i ganolbwyntio ar y materion mwyaf perthnasol i'r trydydd sector. Byddem yn gwerthfawrogi eich awgrymiadau am destunau i gael sylw mewn rhifynnau o Newyddion Ymddiriedolwyr y dyfodol, e-bostiwch legalservices@wcva.org.uk

Annogwn ymddiriedolwyr i gofrestru i dderbyn Newyddion Ymddiriedolwyr yn fisol.

Ymddiriedolaeth Lloyds TSB yng Nghymru

Lloyds TSB Foundation for England and Wales

Yn 2011, mae'r Ymddiriedolaeth Lloyds TSB yng Nghymru yn cysidro ariannu prosiectau refeniw o £15,000 hyd at £20,000 mewn cyfanswm dros ddwy flynedd i elusennau cofrestredig yn unig. Mae'n rhaid i waith elusennau rannu'r un genhadaeth â'r Ymddiriedolaeth sef i 'alluogi pobl ddifreintiedig i chwarae rôl gyflawn yn eu cymuned o'u dewis'.

Am fwy o wybodaeth ewch i ww.lloydstsbfoundations.org.uk

Cynllun Chwarae Awyr Agored

Cyngor Sir Ynys Môn / Isle of Anglesey County Council

Siwan Owens yw Swyddog Chwarae Cyngor Sir Ynys Môn fydd yn gweinyddu hen gynlluniau Cymorth ar gyfer Chwarae Mynediad Agored o hyn ymlaen. Derbyniwyd gwybodaeth i ni hysbysebu grwpiau â diddordeb, fod hyd at £300 ar gael i hybu cynlluniau chwarae ar gyfer Haf 2011. Os â diddordeb cysylltwch â Siwan ar 01248 752968 neu e-bost: stoed@anglesey.gov.uk

EIN CYFEIRIAD YW:
Uned 5c, Parc Diwydiannol Bryn Cefni
LLANGEFNI
Ynys Môn LL77 7XA
Ffôn: 01248 724944
Ffacs: 01248 750149
E-bost: post@medrwnmon.org
Safle We: www.medrwnmon.org